


Archwilio Pam **Fêl**



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Fêl

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', er mwyn

eu helpu i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe welon nhw lun merch mewn fêl ar y teledu, ac yna fe aethon nhw ati i geisio gweld sawl fêl arall y gallen nhw ddod o hyd iddi, a ble.



Cerddodd Aled a Siân ar hyd y stryd brysur. Fe wnaethon nhw gerdded heibio arlunydd stryd yn tynnu lluniau â sialc ar y palmant. Fe wnaethon nhw gerdded heibio cerddor yn canu feiolin wrth y

caffi. Yna, fe wnaethon nhw aros wrth y ffynnon i wyluo clown yn jyglo pum ffon dân, rownd a rownd yn yr awyr.



Yn y dyrfa, roedd pobl mewn siwtiau a jîns, cotiau a siacedi, hetiau a chapiau. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – fêl,” meddai Siân. Roedd hi’n edrych ar ferch mewn fêl, a dau o blant bach gyda

hi. Du oedd lliw y fêl, ac roedd y fêl yn chwifio yn yr awel. Roedd y fêl yn gorchuddio’i gwallt a’i gwddf. “Tybed pam mae’r fêl mor bwysig?” gofynnodd Aled.



Cerddodd Aled a Siân ar hyd y stryd nes daethon nhw at giatiau'r parc. Yn y parc, fe welon nhw ferched ar eu beiciau, yn chwerthin wrth iddyn nhw wibio heibio. Fe welon nhw fechgyn yn chwarae

pêl-droed ar y gwair. Fe welon nhw hwyaid yn nofio ar y llyn, yn cwacian cyfarchion i'r plant a oedd yn taflu darnau o fara iddyn nhw.



Yna, yng nghanol yr holl bobl, fe welodd Aled a Siân ferch yn loncian. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – fêl,” meddai Aled. Gwyn oedd lliw y fêl, ac roedd yn llyfn a ffasiynol. Roedd y fêl yn gorchuddio’i

gwallt a’i gwddf. Gwyliodd Aled a Siân y ferch yn loncian o gwmpas y llyn a thros y bont. “Tybed pam mae’r fêl mor bwysig?” gofynnodd Siân.



Cerddodd Aled a Siân ymlaen, yn ymyl rheiliau'r parc. Fe wnaethon nhw gerdded heibio'r goleuadau traffig, yn fflachio'n goch, ambr, ac yna'n wyrdd. Fe wnaethon nhw gerdded dros y

groesfan sebra, gan edrych yn ofalus i'r dde, i'r chwith, ac yna i'r dde eto. Yna, fe wnaethon nhw aros yn yr orsaf fysiau a dechrau cyfrif y bysiau.



Wrth iddyn nhw gyfrif, fe welon nhw wahanol fathau o fysiau. Roedd yno fysiau deulawr tal, yn cyrraedd i fyny at yr awyr. Roedd yno fysiau unllawr llai, wedi'u parcio'n rhes ar ôl rhes. "Dw i'n

gweld â'm llygad bach i – fêl," meddai Siân. Yno, yn disgwyl am fws rhif 8, fe welon nhw ferch mewn fêl o liwiau gwyrdd ac aur. "Tybed pam mae'r fêl mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Wedi iddyn nhw orffen cyfrif, aeth Aled a Siân o'r orsaf fysiau a cherdded tua'r farchnad. Fe wnaethon nhw gerdded heibio'r farchnad a'i stondinau prysur. Yno, fe welon nhw bobl yn

bodio'r tomatos coch aeddfed ac yn prynu bresych gwyrdd ffres. Yna, fe wnaethon nhw aros i edrych ar y ffrwythau lliwgar wedi'u pentyrru'n uchel.



Yno, ar y stondin ffrwythau, fe welon nhw fananas aeddfed yn hongian yn fwnsieidiau. Yno, ar y stondin ffrwythau, fe welon nhw afalau ffres a gellyg yn llawn sudd mewn rhesi taclus hir. “Dw i’n gweld â’m llygad bach i – fêl,” meddai Aled. Roedd

yn edrych ar ferch mewn fêl yn prynu orennau. Lliw glas tywyll oedd y fêl. Roedd y fêl yn gorchuddio’i gwallt, ei hwyneb, a’i gwddf. “Tybed pam mae’r fêl mor bwysig?” gofynnodd Siân.



Wedi iddyn nhw orffen edrych o gwmpas stondinau'r farchnad, aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith heibio'r bloc o fflatiau newydd, heibio'r byngalos smart, a heibio'r rhes o hen dai teras.

Yna, fe ddaethon nhw at dŷ eu ffrindiau Ahmed a Salma. Maen nhw'n byw yno gyda'u mam a'u tad a'u brawd bach, Hashim.



Wrth iddyn nhw fynd i mewn i'r tŷ, fe welon nhw fam Ahmed a Salma'n sefyll yn y cyntedd. Roedd hi'n gwisgo cot frown smart, ac roedd yn paratoi i fynd allan. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – fêl,"

meddai Siân. Yno, o flaen y drych, roedd mam Ahmed a Salma'n gwisgo'i fêl yn ofalus. "Tybed pam mae'r fêl mor bwysig?" gofynnodd Aled.



Aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân i'r mosg yn ymyl eu cartref. Fe welon nhw enw'r mosg ar arwydd gwyrdd a gwyn uwchben y drws. Fe welon nhw

ysgrifen hardd mewn iaith doedden nhw ddim yn ei deall. Fe welon nhw arwydd arall yn gofyn i bobl ddiffodd eu ffonau symudol a pheidio ysmegu.



Yn dod allan o'r mosg, roedd merch ifanc yn cario llyfrau. Roedd hi'n gwisgo gwisg laes, lwyd a gleiniau arni. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – fêl," meddai Aled. Llwyd oedd lliw y fêl hefyd, a

gleiniau arni. Roedd y fêl yn gorchuddio'i gwallt a'i gwddf. Roedd y ferch yn adnabod Ahmed a Salma, ac fe wenodd arnyn nhw. "Tybed pam mae'r fêl mor bwysig?" gofynnodd Siân.



Yna, aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân drwy ddrysau'r mosg. Fe wnaethon nhw roi cap i Aled a fêl i Siân. Gadawodd y pedwar eu hesgidiau ar silff esgidiau fawr. Wrth iddyn nhw gerdded heibio'r

ystafelloedd ymolchi, roedden nhw'n gallu clywed sŵn dŵr yn sblasio. Yna dechreuodd Ahmed a Salma egluro pam mae'r fêl mor bwysig i'w teulu.



Dangosodd Ahmed a Salma ddosbarthiadau i Aled a Siân lle roedd bechgyn a merched yn eistedd ar y llawr. Tra oedden nhw'n eistedd roedd y bechgyn a'r merched yn darllen yn uchel o lyfrau ar fyrdau isel o'u blaenau.

Wrth i Aled a Siân wrando, roedden nhw'n clywed seiniau Arabeg yn llenwi'r lle. "Rydyn ni'n darllen y Qur'an er mwyn cael gwybod sut mae Allah eisiau i ni fyw," meddai Ahmed.




Aeth Ahmed a Salma at gwpwrdd yng nghornel y dosbarth. Safodd Salma ar gadair ac ymestyn mor uchel ag y gallai. Yno, ar y silff uchaf fe ddaeth o hyd i gopi o'r Qur'an, copi oedd ddim yn cael ei

ddefnyddio yn y wers. Gan agor y Qur'an, dechreuodd Ahmed a Salma ddweud wrth Aled a Siân sut mae llawer o Fwslimiaid yn gwisgo.




Fe ddaethon nhw o hyd i surah 24, a darllen y testun. “Mae’r Qur’an yn dweud y dylai dynion a merched wisgo’n addas pan fyddan nhw gyda phobl eraill sydd ddim yn aelodau o’u teulu agos,”

meddai Salma. Mae llawer o Fwslimiaid yn credu bod hynny’n golygu y dylai merched orchuddio’u pen â fêl.



Aeth Ahmed a Salma ag Aled a Siân i wyllo Mwslimiaid yn gweddïo gyda'i gilydd. Fe welon nhw'r dynion yn gweddïo yn y neuadd weddïo, a'r merched yn gweddïo ar y balconi uwchben. Gan

sefyll, ymgrymu a phenlinio, roedden nhw i gyd yn symud gyda'i gilydd, yn moli Allah. Roedden nhw'n llefaru yr un geiriau Arabeg gyda'i gilydd, ac yn moli Allah.



Wrth i'r dynion a'r merched weddio gyda'i gilydd, edrychodd Aled a Siân yn fanwl ar eu dillad. Fe welon nhw lawer o wahanol liwiau a ffasiynau. Fe welon nhw lawer o wahanol benwisgoedd ar gyfer

merched a dynion. Roedd y rhan fwyaf o feliau'r merched yn gorchuddio'r gwallt a'r gwddf. Roedd ambell fêl yn gorchuddio'r wyneb hefyd.




Dywedodd Ahmed a Salma bod Mwslimiaid yn deall mewn gwahanol ffyrdd beth yw ystyr gwisgo'n addas. Mae rhai'n gorchuddio mwy ar eu cyrff nag eraill. Mae rhai merched yn dewis peidio gwisgo

fêl o gwbl os nag ydyn nhw'n gweddïo neu'n darllen y Qur'an. Mae Mwslimiaid yn deall y Qur'an mewn gwahanol ffyrdd.




Meddylodd Aled a Siân am y gwahanol ddillad mae pobl yn eu gwisgo, a pham maen nhw'n eu gwisgo. Fe wnaethon nhw feddwl am ddillad ysgol a dillad chwaraeon. Fe wnaethon nhw feddwl am ddillad

haf a dillad gaeaf. Ac fe wnaethon nhw feddwl am ddillad ar gyfer y fyddin, yr heddlu, ac ysbytai. "Beth mae fy nillad i yn ei ddweud wrth bobl amdanaf i?" gofynnodd Siân.



Meddyliodd Aled a Siân am bopeth roedden nhw wedi'i weld ac wedi'i ddysgu am y fêl. Ar wal yn eu hymyl, fe welon nhw'r Bismillah mewn ysgrifen Arabeg hardd. Roedd yn dweud "Yn enw Allah, Mwyaf Grasol, Mwyaf Trugarog."

Dilynodd Aled a Siân y llinellau a chyffwrdd y dotiau â'u bysedd. "Nawr, rydyn ni'n gwybod pam mae'r fêl mor bwysig i fwslimiaid!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am 'Feliau'. Maen nhw'n dod o hyd i feliau mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw'n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â'u ffrindiau, Ahmed a Salma, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – "Tybed pam mae'r fêl mor bwysig?" Gyda help Ahmed a Salma, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing